

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU



## DATGANIAD O GYFRIFON

2009/2010

**S. K. F. GREENSLADE, JP. CPFA.IRRV  
TRYSORYDD**

***AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU***  
***DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010***

***CYNNWYS***

RHAGAIR ESBONIADOL AC ADOLYGIAD GWARIANT	2
<b><u>DATGANIAD O GYFRIFON</u></b>	
ARDYSTIAD O DDATGANIAD O GYFRIFON	5
DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU / TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD	6
DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL	7
ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL	13
DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFO	17
CYFRIF INCWM A GWARIANT	24
DATGANIAD SYMUDIAD AR Y BALANS YN Y GRONFA GYFFREDINOL	25
DATGANIAD CYFANSWM YR ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG	27
MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2010	28
DATGANIAD LLIF ARIAN	29
NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL	30
CYFRIF CRONFA BENSIWN YMLADDWYR TÂN	67

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**RHAGAIR ESBONIADOL AC ADOLYGIAD GWARIANT**

Rhagair Esboniadol ac Adolygiad Gwariant - Mae'r tudalennau canlynol yn dangos y perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2009 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2009/2010 yn cynnwys y canlynol

Cyfrif Incwm a Gwariant - Mae hwn yn cofnodi'r incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ar gyfer holl weithgareddau'r Awdurdod ac yn dangos sut y mae'r gwariant net ar bob gwasanaeth wedi cael ei gyllido gan ardollau ar awdurdodau a chronfeydd wrth gefn cyfansoddol.

Datganiad Symudiad ar y Balans yn y Gronfa Gyffredinol – Mae hwn yn dod â holl enillion a cholledion cydnabyddedig yr Awdurdod yn ystod y cyfnod cyfrifyddu at ei gilydd ac yn nodi'r rheiny sydd wedi'u cydnabod a heb eu cydnabod yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Datganiad Cyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig (STRGL) – Mae hyn yn cynnwys yr holl enillion a cholledion ac yn mesur y symudiad yn y fantolen o werth net yr Awdurdod.

Y Fantolen - Mae hon yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod fel y mae ar 31 Mawrth 2010.

Datganiad Llif Arian - Mae hwn yn crynhoi mewnlifiadau ac all-lifoedd arian sy'n codi o drafodion â thrydydd partiön at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cyfrif Cronfa Bensiwn Ymladdwyr Tân - Mae hwn yn dangos safle ariannol cyfrif cronfa pensiwn Ymladdwyr Tân, gan ddangos a ydyw'r Awdurdod mewn dyled, neu a oes arian yn ddyledus iddynt oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn mantoli'r cyfrif, ynghyd â manylion am ei asedau net.

Darperir datganiad o'r cyfrifoldebau ar gyfer y datganiad hwn o'n cyfrifon ar dudalen 6.

Mae aelodaeth Awdurdod Tân De Cymru yn dod o bob un o'r deg awdurdod cyfansoddol.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**RHAGAIR ESBONIADOL AC ADOLYGIAD GWARIANT**

**ADOLYGIAD GWARIANT**

Mae'r Awdurdod yn gwario ar eitemau a ddefnyddir fel rheol cyn pen y flwyddyn, ac fe ariennir hyn gan y deg awdurdod lleol cyfansoddol yn ôl cyfran eu poblogaeth. Am y flwyddyn 2009/10, roedd y cyfrannau fel y ganlyn:

<b>Awdurdod Unedol</b>	<b>£</b>	<b>Cyfran %</b>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	3,430,828	4.84%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	6,638,553	9.37%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	8,517,576	12.02%
Cyngor Sir Caerdydd	15,914,679	22.48%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	2,756,561	3.89%
Cyngor Sir Fynwy	4,372,818	6.17%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd	6,950,897	9.81%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	11,586,482	16.36%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	4,516,596	6.38%
Cyngor Bro Morgannwg	6,147,727	8.68%
	<b>70,832,717</b>	<b>100.00%</b>

**Gwariant Refeniw**

Fe ddaeth gwariant net i'r flwyddyn i gyfanswm o £70.111 miliwn o'i gymharu â'r cyllid refeniw net o £70.832 miliwn. Cyflawnwyd y tanwariant o £721,718 gan dorri ar y gwariant lle bynnag yr oedd modd er mwyn lleihau'r pwysau disgwylidig yn 2009/10 yn deillio o effeithiau cyfrifoldebau newydd. Cafwyd y mwyafrif o'r arbedion o gyflogau, cyllidebau'n ymwneud â phensiwn ymladdwyr tân a thaliadau cyfalaf.

**Gwariant Cyfalaf**

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn oedd £4.770 miliwn. Mae Cod y Prudential yn caniatáu i'r Awdurdod bennu ei derfynau benthyc ei hun ar yr amod bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn barnu ei fod yn ddoeth, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Cymerwyd benthyciadau o £4.0 miliwn yn ystod y flwyddyn ar gyfer y rhaglen gyfalaf. Cafodd benthyciadau o £10m hefyd eu codi er mwyn ail-ariannu'r ddyled yn ymwneud â phencadlys newydd y gwasanaeth tân gan ddod â'r prif gyfanswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2010 i £30.761 miliwn. Mae'r holl fenthyciadau sy'n ddyledus gyda'r PWLB.

Targedwyd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn tuag at adleoli Storffeydd a Gweithdai Cerbydau'r Awdurdod Tân ac Achub, adnewyddu Gorsafoedd Tân, offer cyfathrebu a chyfrifiadur, prynu cerbydau cymorth ac offer gweithredol rheng flaen. (Nodyn 6)

**Rhwymedigaeth pensiwn**

Yn 2009/10, ymddeolodd 29 aelod o staff iwnniform amser llawn. Mae cost net Cynllun Pensiwn yr Ymladdwyr Tân i'r gyllideb refeniw yn parhau i gynyddu, ac felly hefyd y rhwymedigaeth yn nhermau ymrwymadau pensiwn yn y dyfodol. Y rhwymedigaeth a aseswyd yn actiwaraidd ar 31 Mawrth 2010 oedd £596.83 miliwn ar gyfer cynllun pensiwn yr Ymladdwyr Tân ac £24.16 miliwn ar gyfer cynllun pensiwn y Llywodraeth Leol. O dan Safon Adroddiadau Ariannol 17 (Budd-daliadau Ymddeol) mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddarparu manylion yr asedion a'r rhwymedigaethau ar gyfer pensiynau sy'n daladwy yn y dyfodol i weithwyr, cyn-weithwyr a gweithwyr cyfredol. Nodir hyn yn fanylach yn y datgeliadau i'r cyfrifon. Cyhoeddwyd yn y Gyllideb ddydd Mawrth 22 Mehefin 2010 y

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**RHAGAIR ESBONIADOL AC ADOLYGIAD GWARIANT**

bydd y Llywodraeth yn mabwysiadu Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) ar gyfer mynegeio pensiynau gwasanaeth cyhoeddus o fis Ebrill 2011. Bydd hyn yn cael effaith ar weithrediad y cynlluniau pensiwn y mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ei ddarparu i weithwyr.

**Newidiadau arwyddocaol**

Dyma'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 2009 sy'n gymwys i Ddatganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru;

- Nid yw'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer contractau Mentrau Cyllid Preifat (MCP) bellach wedi'u selio ar safon cyfrifyddu y DU FRS 5 ond yn hytrach ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) IFRIC 12 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth. Mae eiddo'r MCP a oedd yn cael ei drin yn flaenorol fel 'difantolen' bellach wedi'i gydnabod ar fantolen yr Awdurdod ynghyd â rhwymedigaeth ar gyfer y cyllid a ddarperir gan weithredydd y MCP ar gyfer 2009/10 o ganlyniad.
- Mae digwyddiadau wedi dyddiad y fantolen i'w hadlewyrchu yn y datganiad o gyfrifon yn unol â darpariaethau cyffredinol SORP a GAAP y DU.
- Dileu nodiadau datgeliadau mewn perthynas ag Adran 137 gwariant a gwariant ar gyhoeddusrwydd.
- Gwybodaeth ychwanegol o ran tâl swyddogion wedi'i datgelu yn unol â gofynion SORP

**Cyfrifyddu wrth Gefn**

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos cronfeydd ariannol yn cael eu dwyn ymlaen i 2010/11. Mae hyn yn gyson â'r driniaeth cyfrifyddu yn y blynyddoedd blaenorol, gyda chynhaliadaeth a defnydd cronfeydd yn ffurfio conglfaen o sefydlogrwydd ariannol corfforaethol a chynllunio gwasanaeth gweithredol yn y tymor byr a chanol.

Ar ddiwedd archwiliad 2007/08, cwestiynwyd y grym i ddal cronfeydd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd wedi cael barn gyfreithiol yn nodi nad oedd gan yr Awdurdodau Tân Cyfunol y pŵer i ddal cronfeydd.

Felly, byddai unrhyw gronfeydd o'r fath yn anghyfreithlon yn seiliedig ar y farn hon. Er mwyn sicrhau fod ansicrwydd ynghylch pŵer Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunol i ddal cronfeydd yn cael ei ddileu, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Gorchymyn Cyfuniad. Trwy Benderfyniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru cytunodd pob Awdurdod Unedol Cymreig y byddai o fudd i Awdurdodau Tân ac Achub allu dal cronfeydd. Mae Cynulliad Cymru bellach wedi cynnig eglurder yn hyn o beth mewn diwygiad i'r Gorchymyn Cyfuniad. Mae hyn yn gwneud yn eglur bwerau Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunol Cymru o ran dal cronfeydd a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2009.

Tra bo'r safle bellach yn eglur, barn Swyddfa Archwilio Cymru yw nad oedd y pŵer i ddal cronfeydd yn ei le ar 1 Ebrill 2009. Oherwydd hyn, mae'r Archwilydd Allanol yn ei ystyried yn angenrheidiol i roi cymhwyster i'r cyfrifon ar gyfer 2009/2010 mewn perthynas â'r cyfrifyddu yn y cyfnod cymharol.

***AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU***  
***DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010***

***ARDYSTIAD O DDATGANIAD O GYFRIFON***

**Ardystiad o Ddatganiad o Gyfrifon**

Fel Cadeirydd cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 27 Medi 2010, rwy'n cydnabod i'r pwyllgor hwn dderbyn Datganiad o Gyfrifon 2009/2010, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2005 Rheoliad 9 (3) (b), ac rwy'n cadarnhau i'r Datganiad o Gyfrifon gael ei gymeradwyo gan y Trysorydd yn rhinwedd ei swydd fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar 30 Mehefin 2010 yn unol â'r Rheoliadau a grybwyllir uchod.

Llofnod \_\_\_\_\_

Dyddiad: 27 Medi 2010

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU**

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod**

Mae'n ofynnol i'r awdurdod:

- ◆ wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth gywir o'i faterion ariannol a
- ◆ sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hyn. Yn yr awdurdod hwn, y swyddog hwnnw yw'r Trysorydd,
- ◆ rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithiol ac effeithlon ar ei adnoddau ac er mwyn diogelu ei asedau.
- ◆ cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon

**Cyfrifoldebau'r Trysorydd**

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod, gan gynnwys y Cyfrifon Cronfeydd Pensiwn, y mae'n rhaid iddo, yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr ('y Cod'), gyflwyno mewn modd teg sefyllfa ariannol yr awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn (a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010).

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Trysorydd wedi:

- ◆ dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- ◆ gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- ◆ cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Yn ogystal, mae'r Trysorydd wedi:

- ◆ cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- ◆ cymryd camau rhesymol er mwyn atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill

**TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD**

Tystiaf fod y cyfrifon a nodir ar dudalennau 17 i 67 yn ddatganiad teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben.

Llofnod: \_\_\_\_\_

Dyddiad: 27 Medi 2010

**Trysorydd**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

**Cwmpas Cyfrifoldeb**

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ac y cyfrifir yn briodol amdano, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gan yr awdurdod ddyletswydd hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y cyflawna ei swyddogaethau, gan roi ystyriaeth i gyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod yn effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo ac wedi mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, *Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol*.

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cod a hefyd wedi bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Cymru 2005 fel y'i diwygiwyd mewn perthynas â chyhoeddi'r datganiad ar reolaeth fewnol.

**Diben y Fframwaith Llywodraethu**

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, y mae'r Awdurdod yn cael ei arwain a'i reoli ganddynt, a'r gweithgareddau y mae'n atebol drwyddynt i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith ac mae wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel rhesymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd pendant o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu felly. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynllunnir i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny'n codi a'r effaith pe baent yn codi, a'u rheoli mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus.

**Y Fframwaith Llywodraethu**

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn disgrifio elfennau allweddol y systemau a'r prosesau sy'n ffurfio trefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn unol â chwe egwyddor Llywodraethu Corfforaethol sydd wedi'u cynnwys yn ein Cod ac sy'n cynnwys:-

- Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod a'r canlyniadau ar gyfer y gymuned a chreu gweledigaeth ar gyfer De Cymru a'i rhoi ar waith.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n eglur
- Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ran ymddygiad
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun craffu effeithiol a rheoli risg
- Datblygu gallu a medr aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol
- Ymgysylltu â'r bobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau rhwymedigaethau cyhoeddus cadarn

**Adolygiad o Effeithiolrwydd**

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei hysbysu gan waith y tîm arwain gweithredol o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygiad a chynhaliadaeth yr amgylchedd llywodraethu, Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol, a hefyd sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol ac aseswyr sy'n gymheiriaid.

Mae datganiad sicrwydd wedi'i drafod ac wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Arweinwyr Gweithredol ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys y system o reolaeth fewnol.

Fel darparwr Gwasanaethau Archwilio Mewnol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae RSM Tenon yn rhoi barn i'r Awdurdod, drwy ei Bwyllgor Archwiliad Ariannol a Rheoli Perfformiad, am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth y sefydliad.

Mae'r pwyllgor Archwiliad Ariannol a Rheoli perfformiad yn derbyn adroddiadau rheolaidd oddi wrth yr archwilwyr mewnol am eu cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol sy'n rhoi manylion am y lefelau sicrwydd y gellir eu gosod yn erbyn yr amrywiol systemau a phrosesau sydd yn eu lle. Maent hefyd yn derbyn Asesiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn.

Tra bo'r Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ffurfiol bob tri mis ac yn cefnogi cynnwys risgiau newydd neu risgiau sy'n ymddangos mae'r Pwyllgor Archwiliad Ariannol a Rheoli Perfformiad yn derbyn Adroddiad Blynyddol yn amlygu'r risg corfforaethol a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i liniaru'r risg.

Wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod mae'r canlynol wedi'i ystyried:-

- Mae'r Awdurdod yn gweithredu strwythur pwyllgor sy'n delio â'r meysydd allweddol sydd wedi'u halinio i'w amcanion strategol, gyda'r Cylch Gorchwyl canlynol wedi cytuno arno:-

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

- **Yr Awdurdod Tân** - Mae'r Awdurdod Tân yn gyfrifol am sicrhau fod Gwasanaeth Tân ac Achub yn Ne Cymru:-
  - yn effeithiol
  - yn effeithlon
  - yn atebol i'r cyhoedd

Mae'r aelodaeth yn cynnwys 10 Aelod o'r Awdurdodau Unedol sydd yn Ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub yn unol â Gorchymyn Gwasanaeth Tân De Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995.

- **Pwyllgor Archwiliad Ariannol a Rheoli Perfformiad** - Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gynllunio a rheoli adnoddau ariannol yr Awdurdod, gan gynnwys awdurdodi gwariant, hawliau trosglwyddo arian o gronfeydd a rhoddion o offer neu eiddo arall o fewn cylch gwaith Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod. Mae'n goruchwyllo'r broses reportio ariannol ac yn rhoi archwiliad mewnol o berfformiad ariannol, gan gynnwys faint y mae'n effeithio ar wneud yr Awdurdod yn agored i risg a gwanhau'r amgylchedd rheolaeth. Mae'r pwyllgor hefyd yn rhoi sicrwydd am ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig.
- **Pwyllgor Safonau** – Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan holl Aelodau ac Aelodau cyfetholedig a swyddogion yr Awdurdod.
- **Pwyllgor AD a Chydraddoldeb** - Monitro cydbwysedd bywyd a gwaith staff, amodau gweithio a lles, monitro absenoldeb a monitro gweithrediad fframweithiau Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb a Datblygu Staff, polisïau a gweithdrefnau, ac yn gweithredu fel Pwyllgor Apeliadau yn dilyn gwrandawiadau o dan weithdrefnau disgyblaeth, cwyno neu unrhyw weithdrefn arall (gan gynnwys gallu), derbyn ac ystyried adroddiadau o Swyddogion Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb y Gwasanaeth a phennu ymatebion lle bo'n addas.
- **Gweithgor Rheoli Asedau** - Adolygu, monitro a herio lle bo angen reolaeth asedau'r Awdurdod. Yn enwedig bydd yn talu sylw at:- gofynion statudol yr Awdurdod i ddarparu gwasanaeth i gyhoedd De Cymru, y berthynas rhwng ein hasedau a dogfennau corfforaethol allweddol yr Awdurdod, cynnal adolygiadau penodol o berfformiad yr Awdurdod
- Wrth reoli ei asedau, ystyried a herio systemau a thargedau adolygu perfformiad, ystyried agweddau ar Ddatblygiad Cynaliadwy a sut mae'n effeithio ar waith y Gwasanaeth.
  - Mae'r Arweinwyr Gweithredol a'r Uwch Dimau Rheoli yn gyfrifol am bennu polisi, monitro perfformiad a datblygu cynlluniau gwasanaeth yn unol ag amcanion strategol cyffredinol yr Awdurdod. Mae'r fethodoleg cynllunio'n parhau i ddatblygu cyswllt rhwng cynllunio gweithredol a chynllunio ariannol ac yn canfod

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

cyswllt mwy eglur rhwng cynlluniau adrannol, amcanion gwasanaeth, gofynion ariannol a rheoli risg.

- Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu set gynhwysfawr o werthoedd sy'n amlinellu beth yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrth ein gweithwyr a beth gall y cyhoedd ei ddisgwyl gennym ni.
- Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau rheoli risg, ac mae risgiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch Dîm Rheoli.
- Mae system Datblygu ac Adolygu Perfformiad wedi'i chyflwyno ar gyfer yr holl staff, ac wedi'i gynnwys yn hyn mae dadansoddiad o anghenion hyfforddiant.
- Mae'r Awdurdod anfon allan ar gyfer gwasanaeth archwilio mewnol i gwmni o'r sector preifat, sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i roi sicrwydd fod yr Awdurdod yn cynnal systemau rheolaeth fewnol digonol ac i wneud argymhellion ar ffyrdd i ehangu'r rhain lle bo angen, ac felly mae angen i archwilwyr nodi os yw system rheolaeth yn "ddigonol" neu'n "annigonol".

Yn ystod 2009/10 cwblhaodd archwilwyr mewnol 79 diwrnod o adolygu, gan gynnal 16 archwiliad. O'r rhain, roedd 6 yn darparu sicrwydd sylweddol, 4 yn darparu sicrwydd digonol a 2 yn darparu sicrwydd cyfyngedig. Yn ychwanegol, cafodd tri adolygiad dilynol eu cynnal dan ddangos fod cynnydd yn cael ei wneud tuag at weithredu'r holl argymhellion. Cafodd un adolygiad cynghorol hefyd ei gymryd na roddodd lefel sicrwydd. Mae canlyniadau'r archwiliadau hyn wedi'u reportio i'r pwyllgor Archwiliad Ariannol a Rheoli Perfformiad yn rheolaidd, gan roi cyfle i Aelodau ddod i ddeall cydymffurfiaeth yr Awdurdod â rheolau allweddol a thrafod meysydd o bryder gyda swyddogion ac archwilwyr.

Mae KPMG, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, wedi parhau i ddarparu gwasanaeth archwilio allanol i'r Awdurdod, ac felly mae effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol hefyd yn sail i'w gwaith.

Bob blwyddyn, mae'r Awdurdod yn derbyn adroddiad oddi wrth ei archwilwyr allanol sy'n nodi negeseuon allweddol sy'n codi o'r gwaith archwilio y maent wedi'i gwblhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Derbyniodd y Pwyllgor Archwiliad Ariannol a Rheoli Perfformiad yr adroddiad diwethaf ar 16 Tachwedd 2009.

Daeth y canfyddiadau pennaf o'r adroddiad i'r casgliad fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cydymffurfio â'i ofynion o ran reportio gwelliannau ariannol a pherfformiad, ac yn arbennig:-

- Mae'r Awdurdod wedi sicrhau fod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer gweinyddu a reportio ar faterion ariannol ac i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau yn ystod 2008/09.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU –  
DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**










**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

- Oni bai am y farn archwilio cymwysedig yn codi o anghytundeb ar y driniaeth gyfrifyddu yn gysylltiedig â chario cronfeydd, cafodd y datganiad o gyfrifon 2008/09 eu paratoi yn unol â'r gofynion statudol ac mae'n cyflwyno sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub yn deg.
- Cafodd y ddeddfwriaeth oedd yn cefnogi'r farn gymwysedig ei diwygio ym mis Rhagfyr 2009, ac mae'n cefnogi'r camau gweithredu mae'r Awdurdod wedi'u cymryd. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn ôl-weithredol ac felly nid oedd yn ei lle ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan.
- Ni wnaeth archwiliad o systemau ariannol sylweddol yr Awdurdod ganfod unrhyw wendidau sylfaenol o ran rheolaeth fewnol ond cafodd meysydd eu nodi lle'r oedd angen gwelliant parhaus.
- Mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau yn ystod 2008/09.
- Mae Cynllun Gwella 2009/10 yr Awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol ac mae'n rhoi golwg gytbwys ar ei berfformiad yn 2008/09.
- Mae awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran delio ag amrywiaeth o risgiau er bod angen mynd i'r afael yn awr â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y Cyd Asesiad Risg eleni.
- Mae'r adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn dangos ei fod wedi gweithredu ar argymhellion archwiliadau blaenorol a'i fod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau pellach.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU –  
DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Ar gyfer y 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2010, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd, dyma farn RSM Tenon ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar gyfer Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth:-

	Coch	Melyn	Gwyrdd
LLYWODRAETHU			
RHEOLI RISG			
RHEOLAETH			

Daethpwyd i'r canlyniadau hyn am fod dau faes (Adfer Trychineb TG ac Iechyd a Diogelwch) wedi rhoi sicrwydd cyfyngedig, gydag un argymhelliad sylfaenol ar gyfer Adfer Trychineb TG. Mae rheolwyr wedi cytuno i roi'r argymhellion sy'n gysylltiedig â'r ddau adroddiad hyn ar waith. Mae hyn wedi arwain at farn Melyn ar gyfer Rheolaeth, tra bo barn Gwyrdd wedi'i rhoi ar gyfer Llywodraethu a Rheoli Risg sy'n dangos fod systemau cadarn yn eu lle ar gyfer y ddwy agwedd hyn o'r Awdurdod.

Cadeirydd \_\_\_\_\_

Prif Swyddog Tân \_\_\_\_\_

Trysorydd \_\_\_\_\_

Dyddiad \_\_\_\_\_

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL**

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Awdurdod Tân ac Achub de Cymru**

Rwyf wedi archwilio datganiad cyfrifon a nodiadau cysylltiedig Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a'r Gronfa Pensiwn Ymladdwyr Tân am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad Symudiad ar y Balans yn y Gronfa Gyffredinol, Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, Mantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae datganiadau cyfrifyddu Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân yn cynnwys y Datganiad ynghylch Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net. Mae'r datganiadau cyfrifyddu wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a bennir yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

Gwneir yr adroddiad hwn i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, fel y nodir yn y *Datganiad o Gyfrifoldebau* a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Mae gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran paratoi'r Datganiad o Gyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009 wedi'u nodi yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Datganiad o Gyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Mae cynhaliath a chywirdeb gwefan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gyfrifoldeb i'r corff llywodraeth leol; nid yw'r gwaith sy'n cael ei gwblhau gan yr archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiad o gyfrifon ers iddo gael ei gyflwyno yn y lle cyntaf ar y wefan.

Rwy'n adrodd ar fy marn i chi, gan ddweud a yw'r datganiad o gyfrifon a nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'n deg, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009:

- sefyllfa ariannol y corff llywodraeth leol a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn; a
- thrafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a swm a rheolaeth asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, ac eithrio'r rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Adolygaf a yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfio â gofynion 'Darparu Llywodraethu Da o fewn Llywodraeth Leol: Fframwaith a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007. Nodaf os nad yw'n cydymffurfio ag arferion cywir a nodwyd gan CIPFA/SOLACE neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'r archwiliad. Nid oes gofyn imi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad ar Lywodraethu yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid oes gofyn i mi ychwaith i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau rheolaeth gorfforaethol yr awdurdod lleol neu ei weithdrefnau risg a rheoli.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU –  
DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL**

Darllenaf wybodaeth arall sy'n cael ei chyhoeddi gyda'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Rhagair Esboniadol. Ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau materol gyda'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**SAIL BARN YR ARCHWILIAD**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r barnau a wnaed gan y corff llywodraeth leol wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r corff llywodraeth leol a'r gronfa benswn, yn cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad i gael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau cyfrifyddu yn rhydd rhag cam-ddatgan materol, boed wedi ei achosi drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio fy marn euthum ati hefyd i werthuso pa mor ddigonol oedd yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Barn gymwysedig ar ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Awdurdod Tân De Cymru yn codi o anghytundeb ynglŷn â thriniaeth cyfrifyddu**

Mae'r fantolen ddyddiedig 31 Mawrth 2009 yn cynnwys cyfanswm o £5,445,000 sydd wedi'i ddosbarthu fel balansau Cronfa Gyffredinol (£1,995,000) a Chronfeydd a Glustnodwyd (£3,450,000). Yn ystod 2008/2009 defnyddiwyd £3,146,000 o'r balansau wrth gefn a ddygwyd ymlaen i dalu am wariant a gododd yn ystod y flwyddyn honno.

Daeth barn gyfreithiol a roddwyd i Swyddfa Archwilio Cymru yn 2008 i'r casgliad nad yw'r fframwaith statudol y mae Awdurdodau Tân yng Nghymru yn gweithredu oddi tano yn darparu ar gyfer dal cronfeydd sydd wedi cael eu cronni drwy gadw cyfraniadau a wnaed gan ei awdurdodau cyfansoddol sy'n fwy na'r gyfran briodol o dreuliau net yr Awdurdod Tân ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r fframwaith statudol wedi'i ddiwygio gan ddod i rym o 1 Rhagfyr 2009, sy'n golygu gall Awdurdodau Tân yng Nghymru ddal cronfeydd sydd wedi cronni.

Nid oedd y diwygiad hwn yn ôl-weithredol. O ganlyniad, yn fy marn i, mae'r cyfrifon yn cynnwys nifer o drafodion a balansau nad ydynt yn adlewyrchu'n gywir y fframweithiau statudol oedd yn gymwys i'r Awdurdod Tân yn 2008/09 a 2009/10. Felly, mae angen gwneud yr addasiadau canlynol i'r datganiadau ariannol craidd:

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL**

**Mantolen:**

- Ar 31 Mawrth 2009 dylai balans y gronfa gyffredinol gael ei ostwng gan swm o £5,141,000 i ddebyd o £3,146,000; dylai cronfeydd wedi'u clustnodi cael eu gostwng gan swm o £3,450,000 i ddebyd o £425,625,000; a dylai credydwy'r gael ei gynyddu gan swm o £8,591,000 i £12,154,000.

**Datganiad o Symudiad i Falans y Gronfa Gyffredinol**

- Yn 2008/2009 dylai'r cyfanswm ychwanegol net sydd ei angen yn ôl arferion statudol ac anstatudol fod yn -£23,588,000; dylai'r gostyngiad ym malans y gronfa gyffredinol fod yn £3,146,000; dylai balans y gronfa gyffredinol sydd wedi'i ddwyn ymlaen fod ar ddim; a dylai balans y gronfa gyffredinol sydd wedi'i ddwyn ymlaen fod yn -£3,146,000
- Yn 2009/2010 dylai'r diffyg ariannol ar gyfer y flwyddyn yn y cyfrif incwm a gwariant fod yn £21,116,000, dylai'r cyfanswm ychwanegol net sydd ei angen yn ôl arferion statudol ac anstatudol fod yn -£26,620,000; dylai'r cynnydd ym malans y gronfa gyffredinol fod yn £5,504,000; a dylai balans y gronfa gyffredinol sydd wedi'i ddwyn ymlaen fod yn -£3,146,000.

**Cyfrif Incwm a Gwariant**

Yn y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2010 dylai'r incwm o'r awdurdodau cyfansoddol gynyddu gan swm o £8,591,000 i £79,424,000 a dylai Diffyg y Gronfa Net gael ei ostwng gan swm o £8,591,000 i £21,116,000.

**Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig**

- Dylai cyfanswm enillion cydnabyddedig ar gyfer 2008/2009 gael ei ostwng gan swm o £8,591,000 fel addasiad i'r flwyddyn flaenorol.

Mae hefyd newidiadau ôl-ddilydol i'r Nodiadau sy'n cefnogi'r Datganiadau Ariannol Craidd.

Cymhwysais fy adroddiad archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2009 mewn perthynas â'r anghytundeb hwn.

Ac eithrio'r effaith ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig o beidio â gwneud yr addasiadau y cyfeirir atynt yn y ddau baragraff uchod, yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthnasol yn cyflwyno'n deg, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009, sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar 31 Mawrth 2010, a'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**Y farn ar ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cronfa Bensiwn yr Ymladdwyr Tân**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU –  
DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'n deg, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009, drafodion ariannol cronfa bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2010 a swm a rheolaeth asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ac eithrio'r rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

**Y casgliad ynghylch y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau**

Caiff fy nghasgliad ar drefniadau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010, ei adrodd ar wahân yn Llythyr Blynyddol y Rheolwr Cysylltiadau a gaiff ei gyhoeddi.

**Tystysgrif Cwblhau**

Tystiaf fy mod wedi cwblhau archwilio cyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett  
**Archwilydd Penodedig**  
**Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ**  
**29 Medi 2010**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFO**  
**DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFYDDU**

Lluniwyd polisiäau cyfrifyddu Awdurdod yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a argymhellir fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol ar gyfer Prydain Fawr, 2008, a gyflwynwyd gan CIPFA. Maent hefyd yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Gwerth Gorau ac maent yn gyson â'r Datganiad o Arfer Argymelledig ar gymhwyso Datganiadau o Arferion Cyfrifyddu Safonol (SSAP's) a Safonau Adrodd Ariannol (FRS). Mae'r egwyddorion cyfrifyddu a ddefnyddir yn cael eu datgelu isod.

**INCWM A GWARIANT**

**(A) REFENIW**

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant, yn net o TAW, yn y flwyddyn maent yn codi ynddi, nid wrth wneud neu dderbyn taliadau arian parod yn unig. Yn benodol:

- Mae ffioedd, taliadau a rhent sy'n ddyledus oddi wrth gwsmeriaid, yn cael eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad y mae'r Awdurdod yn darparu'r nwyddau neu wasanaethau perthnasol.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio - lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwad a'r dyddiad y caiff ei ddefnyddio, maent yn cael eu nodi fel stoc ar y Fantolen.
- Mae gwaith yn cael ei brisio fel gwariant ar ôl iddo gael ei gwblhau. Cyn hynny, fe'i nodir fel gwaith yn mynd rhagddo ar y Fantolen.
- Mae llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac a dderbynnir ar fuddsoddiadau yn cael ei gyfrif ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifiau arian a benodir neu a bennir gan y cytundeb.
- Os yw incwm neu wariant wedi cael ei gydnabod ond nid yw'r arian wedi cael ei dderbyn neu ei dalu, bydd dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Os oes amheuaeth y bydd dyledion yn cael eu talu, bydd balans dyledwyr yn cael ei nodi a bydd tâl yn cael ei godi ar y refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

**(B) TALIADAU AR GYFER ASEDAU SEFYDLOG**

Darperir dibrisiant ar gyfer cerbydau ar sail linol, a chaffaeliadau'n cael eu dibrisio am flwyddyn gron os y'u prynir cyn 31 Rhagfyr yn y flwyddyn gyfrifyddu.

Dibrisiwyd adeiladau ar sail linol dros fywyd defnyddiol amcangyfrifedig yr asedau, fel y darparwyd gan Cooke and Arkwright, Syrfewyr Siartredig.

Mae dibrisiant yn rhan o wariant adrannau gwasanaeth yn y cyfrif incwm a gwariant. Caiff y swm hwn ei gredydu i Falans y Gronfa Gyffredinol ac felly caiff effaith ddiuedd ar gyfraniadau a wneir gan awdurdodau sy'n aelodau.

**(C) GORBENION**

Mae costau Gwasanaethau Cymorth yr Awdurdod yn cael eu dyrannu i weithgareddau amrywiol y Gwasanaeth yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfrifo Gwerth Gorau.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFO**

**(D) PENSIYNAU**

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn gwahanol, sy'n diwallu anghenion gwahanol grwpiau o weithwyr. Mae'r cynlluniau fel a ganlyn:

1. Staff Iwniform

Mae'r Awdurdod yn talu cyfraniadau cyflogydd i mewn i'r cynllun ac mae'r balans arian sydd ei angen wedi i daliadau pensiwn gael eu gwneud yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r gronfa bensiw yn cael ei thrin fel datganiad incwm a gwariant ar wahân yn y Datganiad o Gyfrifon ac mae wedi'i diogelu er mwyn sicrhau eglurdeb cyfrifeg, gweler nodyn 21.

Caiff amcangyfrif o rwymedigaethau tymor hir yr Awdurdod Tân ac Achub i dalu'r costau hyn ei ddatgelu mewn nodyn i'r cyfrifon fel sy'n ofynnol gan FRS 17.

2. Staff heb iwniform a staff yr ystafell reoli

Mae'r staff hyn yn cyfrannu at gynllun a gyllidir, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Actiwariaid sy'n pennu cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr. Mae costau pellach, sy'n codi o ran rhai pensiynau a delir i weithwyr sydd wedi ymddeol, yn cael eu talu ar sail heb ei ariannu.

**ASEDAU CYFALAF**

**(A) ASEDAU SEFYDLOG**

Mae gwariant ar gaffael neu wella gwerth tir, adeiladau, cerbydau, peiriannau ac offer eraill, sydd o fudd i'r Awdurdod am fwy na blwyddyn yn cael eu troi'n gyfalaf a'u pennu'n asedau sefydlog. Gwneir hyn yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr a'r Gofynion ar gyfer Arfer Argymelledig.

Fel rheol, cofnodir asedau sefydlog yn y cyfrifon ar y sail ganlynol: -

Caiff Tir, Anheddau neu Adeiladau eraill y gellir eu gwerthu mewn marchnad agored eu cynnwys yn y cyfrifon yn unol â'r Gwerth ar y Farchnad Agored. Diffinnir hyn fel y pris gorau y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol i werthu buddiant mewn eiddo cael ei gwblhau'n ddiamod ar gyfer ystyriaeth ariannol ar ddyddiad y prisiad.

Cynhwysir Tir, Anheddau ac Adeiladau eraill o naws arbenigol na fyddent yn cael eu gwerthu fel arfer ar y farchnad agored, yn y cyfrifon ar Gost Disodli Dibrisiedig. Mae'r sail hon ar gyfer pennu prisiad yn gofyn am amcangyfrifon o werth y tir ar ei ddefnydd presennol a'r gost disodli gros ar gyfer yr adeiladau a gweithiau safle eraill, y gwneir didyniadau priodol ohonynt er mwyn caniatáu am oedran, cyflwr, darfededigrwydd economaidd neu ffwythiannol a ffactorau amgylcheddol ac eraill a allai achosi i'r eiddo sydd eisoes yn bodoli fod â gwerth llai nag eiddo newydd i'w ddisodli. Caiff

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO**

gwelliannau gwariant i adeiladau eu cynnwys yn y flwyddyn yn unol â'u gwerth cyfan a'u dibrisio o'r flwyddyn ariannol ddilynol.

Cofnodir Cerbydau, Peiriannau ac Offer yn y cyfrifon ar sail cost hanesyddol dibrisiedig.

**(B) PRYDLESAU GWEITHREDU**

Lle bo asedau ar gael i'w defnyddio o dan drefniadau prydlesu, mae'r rhenti sy'n daladwy yn cael eu codi ar y cyfrif gwasanaeth priodol ar sail linol waeth beth yw'r trefniadau talu. Gan nad yw'r Awdurdod yn berchen ar yr asedau hyn, nid yw'r gost yn ymddangos yn y Fantolen. Eithrir yr orfodaeth i dalu rhenti yn y dyfodol mewn modd tebyg, ond atodir nodyn ar wahân i'r Fantolen.

**GWERTHU ASEDU SEFYDLOG**

Mae derbyniadau o werthu asedau sefydlog yn creu incwm a elwir yn Dderbyniadau Cyfalaf. Caiff y rhain eu dal mewn cronfeydd ac yn y Cyfrif Cymhwys Cyfalaf gan ddisgwyl eu cymhwysio i gyllido gwariant cyfalaf newydd neu er mwyn clirio dyledion benthyciadau.

**BUDDSODDIADAU**

Dangosir buddsoddiadau yn y Fantolen yn ôl eu cost i'r Awdurdod ac fe'u nodir fesul eitem mewn nodyn ar wahân.

**ASEDAU CYFREDOL**

**(A) STOCIAU**

Pennir gwerth stoc yn ôl pris cyfartalog, fel procsi ar gyfer pris cost, ac eithrio lwniform (Offer Amddiffyn Personol), y nodir ei gwerth ar y pris cyfredol.

**(B) GWAITH AR DROED**

Dyma werth gwaith sydd heb ei gwblhau ac mae'n cynnwys cost deunyddiau, llafur a gorbenion a dreulir ar waith o'r fath.

**CRONFEYDD A DARPARIAETHAU**

Mae darpariaethau'n cael eu gwneud pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod a fydd yn debygol o olygu setliad drwy drosglwyddo buddiannau economaidd, ond lle bo amserlen y trosglwyddiad yn ansicr.

Mae darpariaethau'n cael eu priodoli i'r cyfrif refeniw priodol pan fydd yr Awdurdod yn dod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o'r setliad tebygol. Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud, maent yn cael eu gosod yn erbyn y ddarpariaeth a osodwyd yn y fantolen. Mae amcangyfrif setliadau yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - pan fydd yn dod yn fwy tebygol na fydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd, mae'r ddarpariaeth yn cael ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r cyfrif refeniw perthnasol.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFO**

Mae'r Awdurdod hefyd yn dal cronfeydd er mwyn diwallu gwariant cyffredinol at y dyfodol. Caiff y rhain eu datgan yn y fantolen gyfunol ac esbonnir eu swyddogaethau yn y nodiadau i'r fantolen gyfunol.

**DARPARIAETH AR GYFER DRWGDDYLEDION**

Gwneir darpariaeth ar gyfer y dyledwyr hynny y mae eu dyled yn fwy na 60 diwrnod oed. Gwneir ymdrechion rhesymol i adfer pob dyled, waeth pa ddarpariaeth a wnaed.

**TRETH AR WERTH**

Ad-delir yr awdurdod am gostau TAW, ac mae'r cyfrifon refeniw felly wedi'u paratoi heb y dreth hon.

**ADBRYNU DYLED A LLOG ALLANOL**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003, rhoddodd yr Awdurdod ganllawiau Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) ar waith a bydd yn asesu ei DIR yn unol â'r prif argymhellion sydd wedi'u cynnwys o fewn y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 21(1A) y Ddeddf.

Bydd prif gyfran y DIR yn ymwneud yn fwy â'r rhwymedigaethau dyled mwy hanesyddol a fydd yn parhau i godi tâl ar gyfradd o 4%, yn unol ag *opsiwn 1* y canllawiau. Bydd ychydig o wariant sydd wedi'i adlewyrchu o fewn y rhwymedigaethau dyled, o dan bwerau wedi'u dirprwyo, yn destun DIR o dan *opsiwn 3*, yn codi tâl dros gyfnod sy'n gymesurol rhesymol gyda'r bywyd defnyddiol amcangyfrifedig sy'n berthnasol i natur y gwariant, gan ddefnyddio'r dull rhandaliad blynyddol cyfartal. Er enghraifft, gwariant cyfalaf ar adeilad newydd, neu ar adnewyddu neu wella adeilad, yn berthnasol i fywyd amcangyfrifedig yr adeilad hwnnw.

Bydd llog sy'n cael ei godi ar fenthyciadau allanol a hefyd llog sydd i'w dderbyn ar fuddsoddiadau, yn cael ei gronni a rhoddir cyfrif amdano am y cyfnod y mae'n perthyn iddo.

**RHWYMEDIGAETH AMODOL**

Mae FRS 12 yn diffinio rhwymedigaeth amodol fel naill ai:

rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd eu bodolaeth yn cael ei gadarnhau yn unig drwy un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, neu rwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ond na chaiff ei chydnabod oherwydd

- a) nid yw'n debygol y bydd trosglwyddo manteision economaidd yn ofynnol i benderfynu ar y rhwymedigaeth, neu
- b) ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth gyda digon o ddibynadwyedd.

Lle mae rhwymedigaeth amodol yn bodoli, ni fyddai'n cael ei gydnabod o fewn y cyfrifon fel eitem gwariant, ond byddai'n cael ei ddatgelu mewn nodyn i'r fantolen a

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO**

fyddai'n disgrifio natur y rhwymedigaeth amodol a lle y bo'n ymarferol, amcangyfrif o'i effaith ariannol ac arwydd o'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chyfanswm unrhyw all-lif.

**MENTER CYLLID PREIFAT (MCP)**

Trefniadau ar gyfer derbyn gwasanaethau yw cytundebau MCP, lle mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gwneud yr asedau sefydlog sydd eu hangen ar gyfer darparu'r gwasanaethau ar gael yn cael ei drosglwyddo i gontractwr y MCP. Gan y tybir y bydd yr Awdurdod yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir o dan y cynllun MCP ac am y bydd perchnogaeth yr asedau sefydlog yn pasio i'r Awdurdod ar ddiwedd y cytundebau am ddim tâl ychwanegol, mae'r Awdurdod yn cario'r asedau sefydlog a ddefnyddir o dan y cytundebau ar y Fantolen.

Mae cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau sefydlog hyn wedi'i chydbwysu gan gydnabod rhwymedigaeth am symiau sy'n ddyledus i weithredydd y cynllun i dalu am yr asedau.

Mae asedau sefydlog sydd wedi'u cydnabod ar y Fantolen yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un ffordd ag eiddo, peiriannau ac offer sydd yn eiddo i'r Awdurdod.

Mae'r symiau sy'n daladwy i weithredwyr MCP yn flynyddol wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:-

- gwerth teg y gwasanaethau sydd wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn - wedi'u debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y cyfrif Incwm a Gwariant
- cost ariannu - tâl llog ar y rhwymedigaethau sy'n ddyledus ar y Fantolen, wedi'i ddebydu i Log sy'n Daladwy a Thaliadau Tebyg yn y Cyfrif Incwm a Gwariant
- taliad tuag at y rhwymedigaeth— cais i nodi rhwymedigaethau ar y Fantolen tuag at y gweithredwr MCP.

Mae asedau MCP yn destun DIR, mae'r polisi DIR Blynyddol ar gyfer yr Awdurdod wedi pennu'r tâl hwn i fod yn gyfartal i'r rhwymedigaeth prydles ariannol sydd wedi'i nodi ar gyfer y flwyddyn.

**Credydau MCP**

Mae grantiau llywodraeth sydd wedi'u derbyn ar gyfer cynlluniau MCP, sy'n fwy na lefelau gwariant cyfredol, yn cael eu dwyn ymlaen fel cronfa wedi'i chlustnodi er mwyn ariannu gwariant yn y dyfodol.

**Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol**  
**Triniaeth Gyfrifyddu MCP**

Mae'r gofyn i gyfrifyddu MCP a chytundebau tebyg o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol wedi golygu fod asedau a ddefnyddir i ddarparu MCP a chytundebau tebyg wedi'u cydnabod ar Fantolen yr Awdurdod yn hytrach na'u bod heb fod ar y fantolen. Mae'r asedau hyn wedi'u cydnabod ynghyd â rhwymedigaeth ohiriedig ar gyfer y cyllid a ddarperir gan y gweithredydd. Am fod yr asedau ar fantolen yr Awdurdod, byddant yn denu tâl Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR). O dan ganllawiau statudol a pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol yr Awdurdod,

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO**

mae'r tâl DIR wedi'i osod fel ei fod yn gyfwerth â rhwymedigaeth prydlles ac felly does dim effaith ar y cronfeydd cyffredinol oherwydd y newid polisi hwn.

Mae'r newidiadau i Fantolen yr Awdurdod o ganlyniad i Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol wedi'u manylu isod:-

<b>Mantolen</b>	<b>2008/09 Gwreiddiol £'000</b>	<b>2008/09 Diwygiedig £'000</b>
Tir ac Adeiladau eraill	0	5,836
Dyledwyr Hirdymor	1,769	0
Credydwyr	0	500
MCP a Rhwymedigaethau Hirdymor eraill	(1,769)	-6,336

**GRANTIAU A CHYFRANIADAU'R LLYWODRAETH**

P'un ai talwyd ar gyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti ar y dyddiad pan fo'r Awdurdod yn bodloni amodau hawl i'r grant/cyfraniad, bod sicrwydd rhesymol y ceir yr arian a bod y grant ar gyfer gwariant sydd eisoes wedi'i wneud, neu fod disgwyliad rhesymol. Caiff grantiau refeniw eu cyfateb yng nghyfrifon refeniw gwasanaeth â'r gwariant gwasanaeth y maent yn gysylltiedig ag ef. Caiff grantiau ar gyfer gwariant cyffredinol eu credydu ar waelod y cyfrif incwm a gwariant ar ôl y Gwariant Gweithredol Net.

Mae grantiau cyfalaf yn cael eu cyfrif drwy'r cyfrif grantiau llywodraeth wedi'u gohirio, maent yn cael eu rhyddhau i refeniw gyda'r polisi dibrisiad wedi ei gymhwyso yn erbyn yr ased wedi'i chyfalafu yn y fantolen.

**RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL**

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg ac yn cael eu cario yn ôl eu cost wedi'u hamorteiddio. Mae'r costau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer llog sy'n ddyledus yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gyda'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau sydd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir ar y Fantolen yw'r swm ad-daladwy sy'n ddyledus mewn egwyddor, a'r llog a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn y benthyciad.

Nid oes unrhyw adbryniant na thaliad llawn gynnar o fenthyciad wedi bod yn ystod y flwyddyn.

**ASEDAU ARIANNOL**

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu yn ddau fath:

- Benthyciadau a symiau i'w derbyn - asedau sydd â thaliadau penodol neu daliadau y gellir eu pennu, ond heb eu dyfynnu mewn marchnad weithredol.
- Asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris marchnad wedi'i ddyfynnu a/neu sydd heb daliadau penodol neu daliadau y gellir eu pennu.

**Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn**

Mae benthyciadau a symiau i'w derbyn yn cael eu mesur o ddechrau ar werth teg ac yn cael eu cario yn ôl eu cost wedi'u hamorteiddio. Mae'r credydau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer llog sydd i'w dderbyn yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gyda'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau y mae'r Awdurdod wedi'u gwneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir ar y Fantolen yw'r swm i'w dderbyn sy'n ddyledus mewn egwyddor, a'r llog a gredydir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yw'r swm i'w dderbyn yn y benthyciad.

Mae'r holl fenthyciadau a wnaed gan yr Awdurdod yn cynnwys adneuon Trysorlys a Banc, am gyfnodau na all fod yn fwy na 364 diwrnod.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**  
**CYFRIF INCWM A GWARIANT**

**CYFRIF INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 MAWRTH 2010**

<u>2008/2009</u> <u>Gwariant</u> <u>£000</u>		<u>Gwariant</u> <u>Gros</u> <u>£000</u>	<u>Incwm</u> <u>£000</u>	<u>Gwariant</u> <u>Net</u> <u>£000</u>
5,344	<b>DIOGELWCH TÂN CYMUNEDOL</b>	8,234	-2,629	5,605
54,634	<b>YMATEBION GWEITHREDOL</b>	59,317	-267	59,050
4,955	<b>CYFATHREBU A SYMUDOLI</b>	5,468	-101	5,367
607	<b>CYFLENWADAU DŴR</b>	726	-137	589
-5	<b>CYNLLUNIO AT ARGYFWNG</b>	171	-170	1
131	<b>CRAIDD CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD</b>	151	0	151
357	<b>COSTAU HEB EU DOSRANNU</b>	477	0	477
<b>66,023</b>	<b>COSTAU NET GWASANAETHAU</b>	<b>74,544</b>	<b>-3,304</b>	<b>71,240</b>
	Elw/colled ar waredu asedau sefydlog	0	-25	-25
28	Diffyg ar fentrau masnachu nad ydynt wedi'u cynnwys yng Nghost Net Gwasanaethau	0	0	0
1,219	Llog taladwy a thaliadau tebyg	1,573	0	1,573
-794	Incwm llog a buddsoddiadau	0	-44	-44
31,560	Costau Llog Pensiwn ac adenillion disgwylidig ar asedau pensiwn	29,270	0	29,270
<b>98,036</b>	<b>Gwariant gweithredu net</b>	<b>105,387</b>	<b>-3,373</b>	<b>102,014</b>
-69,789	Incwm gan awdurdodau cyfansoddol			-70,833
-1,513	Grantiau Llywodraeth (MCP)			-1,474
<b>26,734</b>	<b>Diffyg Cronfa Net</b>			<b>29,707</b>

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gwariant gros, yr incwm a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a sut y'u cafwyd o'r awdurdodau cyfansoddol.

Bwriad cyflwyno'r ffigurau gwariant yn y fformat yma yw helpu darllenwyr i ddeall cyfanswm cost pob rhan annatod o'r Awdurdod Tân ac Achub.

Caiff grantiau refeniw eu cyfateb yng nghyfrifon refeniw gwasanaeth â'r gwariant gwasanaeth y maent yn gysylltiedig ag ef.

Mae Grantiau Llywodraeth o £1,474k yn ymwneud yn benodol â nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y MCP yng Nghanolfan Hyfforddi Porth Caerdydd.

**DATGANIAD SYMUDIAD AR Y BALANS YN Y GRONFA GYFFREDINOL**

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn dangos gwir berfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn, wedi'i fesur yn nhermau adnoddau a ddefnyddiwyd ac a gynhyrchwyd dros y deuddeng mis diwethaf. Fodd bynnag, ariennir yr Awdurdod gan awdurdodau unedol ar sail gyfrifyddu wahanol, a'r prif wahaniaethau yw:

- Rhoddir cyfrif am fuddsoddiad cyfalaf wrth iddo gael ei ariannu, yn hytrach na phan ddefnyddir yr asedau sefydlog.
- Codir tâl am fudd-daliadau ymddeol wrth i symiau ddod yn daladwy i gronfeydd pensiwn a phensiynwyr, yn hytrach nag wrth i fudd-daliadau'r dyfodol gael eu hennill.

Mae Balans y Gronfa Gyffredinol yn dangos a yw'r Awdurdod wedi gorwario neu danwario yn erbyn y gronfa ar gyfer y flwyddyn, gan ystyried y defnydd a wnaed o'r adnoddau wrth gefn a gasglwyd yn y gorffennol a chyfraniadau i adnoddau wrth gefn a glustnodwyd i'w gwario yn y dyfodol.

Mae'r datganiad cysoni'n crynhoi'r gwahaniaethau rhwng alldro'r Cyfrif Incwm a Gwariant a Balans y Gronfa Gyffredinol.

£000		£000
26,734	<b>Diffyg am y flwyddyn yn y cyfrif Incwm a Gwariant</b>	<b>29,707</b>
<hr/>		
-23,134	<b>Y swm net ychwanegol y mae ei angen yn ôl statud ac arferion anstatudol priodol i'w ddebydu neu gredydu i falans y Gronfa Gyffredinol am y flwyddyn</b>	-30,070
3,600	<b>Cynnydd ym Malans y Gronfa Gyffredinol am y flwyddyn</b>	-363
<b>5,595</b>	<b>Balans y Gronfa Gyffredinol a ddygwyd ymlaen</b>	<b>1,995</b>
<b>1,995</b>	<b>Balans y Gronfa Gyffredinol a ddygwyd ymlaen</b>	<b>2,358</b>

**CYNNYDD YM MALANS Y GRONFA GYFFREDINOL**

	£000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2009</b>	<b>1,995</b>
Gwariant a ariannwyd o'r Gronfa Gyffredinol	-191
*Trosglwyddiadau i'r Gronfa Gyffredinol yn ystod 2009/10	554
<b>Balans ar 31 Mawrth 2010</b>	<b>2,358</b>

Roedd y gwariant a ariannwyd o'r Gronfa Gyffredinol yn ystod 2009/10 ar gyfer adleoli storfeydd a gweithdai cerbydau.

Roedd trosglwyddiadau i'r Gronfa Gyffredinol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys;

Gwarged Refeniw	119
-----------------	-----

\*Yn cynnwys £435,000 a drosglwyddwyd o gronfeydd Cerbydau ac Offer ac Adnewyddu ac Atgyweirio.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**  
**CYFRIF INCWM A GWARIANT**

**Nodyn ar gysoni eitemau ar gyfer y Datganiad o Symud ar Falans y Gronfa Gyffredinol**

2008/09 £000		2009/2010 £000
	<b>Symiau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond yn ôl y statud mae'n rhaid eu diystyru wrth bennu Symud Balans y Gronfa Gyffredinol am y flwyddyn</b>	
0	Amorteiddio asedau sefydlog annirweddol	0
-2,695	Dibrisio ac amharu ar asedau sefydlog	-10,292
-41	Amorteiddio Gohiriedig ar Grantiau'r Llywodraeth	-58
0	Y golled net ar ôl gwerthu asedau sefydlog	25
<b>-2,736</b>		<b>-10,325</b>
	<b>Symiau heb eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond y mae'n ofynnol eu cynnwys drwy statud wrth bennu'r Symudiad ar Falans y Gronfa Gyffredinol am y flwyddyn.</b>	
583	Isafswm darpariaeth referniw ar gyfer ariannu cyfalaf	914
2,554	Gwariant cyfalaf a gostiwyd yn y flwyddyn i Falans y Gronfa Gyffredinol	412
<b>3,137</b>		<b>1,326</b>
	<b>Trosglwyddiadau i falans y Gronfa Gyffredinol neu o'r Gronfa y mae'n rhaid eu hystyried wrth bennu Symud balans y Gronfa Gyffredinol am y flwyddyn</b>	
-42,290	Y costau net am fudd-daliadau ymddeol yn unol â FRS 17	-37,860
16,140	Cyfraniadau'r cyflogwyr yn daladwy i'r Cyfrif Pensiynau a budd-daliadau ymddeol yn daladwy yn uniongyrchol i bensiynwyr	18,330
845	Trosglwyddiadau net i mewn neu allan o'r gronfa wrth gefn Menter Cyllid Preifat	354
1,500	Trosglwyddiadau net i mewn neu allan o gronfeydd Eraill a glustnodwyd	-1,895
<b>-23,535</b>	<b>Trosglwyddiadau net i mewn neu allan o gronfeydd a glustnodwyd</b>	<b>-21,071</b>
<b>-23,134</b>	<b>Cyfanswm ychwanegol net y mae angen ei gredu i falans y Gronfa Gyffredinol am y flwyddyn</b>	<b>-30,070</b>

**DATGANIAD YNGHYLCH CYFANSWM YR ENILLION A CHOLLEDION**  
**CYDNABYDDEDIG 2009/2010**

	<b>2008/2009</b>	<b>2009/2010</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Diffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant	26,734	29,707
Diffyg/(gwarged) yn deillio o ailbriso Asedau Sefydlog	0	-7,466
(Enillion) actiwaraidd/ colledion ar Asedau a Rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn	-59,050	172,890
Unrhyw Golledion cydnabyddedig arall	1,007	1,308
<b>Cyfanswm (Enillion)/Colledion Cydnabyddedig am y Flwyddyn</b>	<b>-31,309</b>	<b>196,439</b>

Mae colledion cydnabyddedig eraill yn cynnwys addasiadau MCP, cronfeydd wedi'u clustnodi a grantiau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

Does dim cynnydd neu golled cydnabyddus wedi cael effaith ar y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i gymhwysiad MCP o'r flwyddyn flaenorol.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2010**

<u>Ailddatgan</u>		<u>31 Mawrth</u>		Nodyn
<u>31 Mawrth 2009</u>		<u>2010</u>	<u>2010</u>	
£000		£000	£000	
	<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>			
	<b>Asedau Gweithredol</b>			
63,251	Tir ac adeiladau	63,055		5
5,886	Cerbydau, peiriannau, celfi ac offer	6,623		5
5,836	Canolfan Hyfforddiant - MCP	5,590	75,268	5
5	Dyledwr Tymor Hir		4	
74,978	Cyfanswm Asedau Tymor Hir		75,272	
	<b>Asedau Cyfredol</b>			
458	Stociau	544		10
2,654	Dyledwyr (yn net o'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus)	4,184		11
662	Arian yn y banc	1,142		14
26	Arian mewn llaw	26		14
5002	Buddsoddiadau dros dro	10,008		14
8,802			15,904	
	<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
-6,402	Benthyciadau Tymor Byr		-1,302	13
-3,563	Credydwyr		-5,854	13
-411	Darpariaethau		-418	13
73,404	Cyfanswm yr Asedau llai Rhwymedigaethau Cyfredol		83,602	
-16,962	Benthyca Tymor Hir		-29,460	15
-299	Grantiau Llywodraeth wedi'u Gohirio		-1,249	19
-6,336	Rhwymedigaeth Hirdymor MCP		-6,215	4
-427,680	Rhwymedigaeth yn ymwneud â chynlluniau budd-daliadau pensiwn diffiniedig		-620,990	22
<b>-377,873</b>	<b>Cyfanswm yr Asedau llai Rhwymedigaethau</b>		<b>-574,312</b>	
	<b>Cronfeydd Cyfalaf</b>			
0	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy nas Cymhwyswyd	-25		16
-42,307	Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf	-32,865		17
0	Cronfeydd Ailbrisio	-7,466		18
-42,307			-40,356	
	<b>Cronfeydd Refeniw</b>			
-1,995	Balans y Gronfa Gyffredinol		-2,358	
	<b>Cronfeydd a Glustnodwyd</b>			
-2,055	Cronfa Cyfartaliad MCP	-2,410		20
-1,000	Cronfa Cerbydau a Pheiriannau	-627		
-500	Cronfa Rheoli Newid	-155		
-410	Cronfa adnewyddu ac atgyweirio	0		
-743	Cronfa adleoli'r Pencadlys	0		
-500	Cronfa gyflogau wrth gefn	-500		
-272	Cronfa Buddsoddi Cyfalaf	-272		
-25	Cronfa offer cerbydau	0		
427,680	Cronfeydd pensiynau	620,990	617,026	22
377,873	Cyfanswm yr Ecwiti		<b>574,312</b>	

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2008-2009**

**DATGANIAD LLIF ARIAN**

DATGANIAD YNGHYLCH Y LLIF ARIAN

<u>2008/2009</u>		<u>2009/2010</u>	
£000		£000	£000
	<b>GWEITHGAREDDAU REFENIW</b>		
	<b>Gwariant</b>		
56,018	Taliadau i weithwyr	56,145	
<u>36,503</u>	Taliadau eraill	<u>36,561</u>	
92,521			92,706
	<b>Incwm</b>		
-18,952	Arian a dderbyniwyd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau	-20,296	
-3,438	Grantiau Eraill y Llywodraeth	-4,046	
-69,789	Cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol	-70,833	
<u>342</u>	Llif Arian Net o Weithgareddau Refeniw		<u>-2,469</u>
	<b>GWASANAETHU CYLLIDO</b>		
1,179	Llog a dalwyd	866	
<u>-794</u>	Llog a dderbyniwyd	<u>-44</u>	
385			822
	<b>GWEITHGAREDDAU CYFALAF</b>		
	<b>Gwariant Cyfalaf</b>		
16,510		4,592	
	<b>Incwm</b>		
-341	Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	-1,008	
<u>0</u>	Derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy	<u>-25</u>	
<u>16,169</u>			<u>3,559</u>
16,896	Llif arian (mewnol)/allanol net cyn ariannu		1,912
	<b>RHEOLI ADNODDAU HYLIFOL</b>		
-20,570	Gostyngiad net mewn adneuon tymor byr		5,006
	<b>ARIANNU</b>		
10,402	Ad-dalu symiau a fenthycwyd	6,602	
-6,000	Benthyciadau newydd a godwyd	-14,000	
<u>4,402</u>			<u>-7,398</u>
<u>728</u>	<b>(GOSTYNGIAD)/CYNNYDD MEWN ARIAN PAROD NET</b>		<u>-480</u>

Ceir mwy o wybodaeth yn nodyn 23 ar gyfer y datganiadau ariannol.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**1. DATGAN ENILLION A DALWYD I WEITHWYR**

Gwnaeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 wedi diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2010, Mae rheoliad newydd, 7A, wedi'i gyflwyno, sy'n diwygio'r gofynion datgeliadau ar gyfer tâl gweithwyr ac uwch swyddogion heddlu.

Mae rheoliad 7A yn gofyn, ymhlith pethau eraill, am ddatgelu yn y cyfrifon "nifer y gweithwyr neu swyddogion heddlu yn y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn cyfeirio ato yr oedd eu tâl yn dod o fewn pob braced mewn graddfa o luosrifau o £5,000 gan gychwyn gyda £60,000....

Dyma ddiffiniad tâl sydd wedi'i ddarparu yn rheoliad 7A (4):  
mae "tâl" yn golygu'r holl symiau a dalwyd i berson, neu a dderbyniwyd gan berson, ac mae'n cynnwys symiau drwy lwfans treuliau ( a bod y symiau hynny'n destun taliadau treth incwm y DU), a gwerth ariannol amcangyfrifedig unrhyw fuddion eraill sy'n cael eu derbyn gan weithiwr oni bai am mewn arian parod.

Dyma fanylion ar gyfer 2008/09 a 2009/10:

<b>Braced</b>	<b>Rhif 2008/09</b>	<b>Rhif 2009/10</b>
£60,000 i £64,999	23	12
£65,000 i £69,999	13	13
£70,000 i £74,999	3	9
£75,000 i £79,999	6	2
£80,000 i £84,999		1
£85,000 i £89,999		1
£90,000 i £94,999		3
£95,000 i £99,999	1	
£100,000 i £104,999		1
£105,000 i £109,999		
£110,000 i £114,999		
£115,000 i £119,999	2	
£120,000 i £124,999		1
£125,000 i £129,999		1
£130,000 i £134,999	2	
£135,000 i £139,999		
£140,000 i £144,999		1
£145,000 i £149,999		

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

- Mae tâl mewn perthynas â'r tabl uchod yn cynnwys cyflog gros (yn cynnwys lwfansau h.y. taliadau CPD), cyfraniadau pensiwn cyflogwyr i'r cynllun ar ran y gweithiwr a lwfansau prydles car.

Manylion taliadau Cyfarwyddwr a dalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2009-2010;

	<b>Cy flo g</b>	<b>Treuliau</b>	<b>Buddion mewn nwyddau (lwfans prydles car)</b>	<b>Cyfanswm ac eithrio Pensiwn</b>	<b>Pensiwn</b>	<b>Tâl Gros</b>
<b>Teitl</b>	<b>£00 0</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Prif Swyddog Tân	12 4	3	6	133	14	147
Dirprwy Brif Swyddog Tân - Darparu Gwasanaeth	99	1	4	104	21	125
* Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Cynllunio a Datblygu Gweithredol	53	1	1.3	55.3	7.5	62.8
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Cynllunio, Datblygu a Chymorth	81	1	3	85	17	102
** Prif Swyddog Cynorthwyol – Gwasanaethau Pobl	70	1	0	71	13	83
Prif Swyddog Cynorthwyol – Cymorth Corfforaethol	70	0	4	74	13	87
*** Cyfarwyddwr Cyllid a Rheolau Asedau	28	0	0	28	5	33

\* Ymddeolodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Cynllunio a Datblygu Gweithredol ar 31 Gorffennaf 2009 ac fe gymerwyd ei le gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Cynllunio a Datblygu Gweithredol, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn y datgeliad uchod. Roedd cyflog blynyddol y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Cynllunio a Datblygu Gweithredol yn gyfwerth â £92,823.

\*\* Mae Prif Swyddog Cynorthwyol - Gwasanaethau Pobl wedi optio allan o'r cynllun prydles car.

\*\*\* Optiodd Cyfarwyddwr Cyllid a Rheoli Asedau am Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol (YCG) ar sail ddiswyddiad ac effaith o 1 Medi 2009.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio gwasanaethau Mr Steve Greenslade fel ei Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae Mr Greenslade yn Gyfarwyddwr gyda Chyngor Sir Fynwy, awdurdod cyfansoddol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Ef sy'n gyfrifol i'r Awdurdod Tân ac Achub am ddyletswyddau statudol y swyddfa ac ef sy'n gweithredu fel prif gyngorydd ariannol yr Awdurdod. Gweneir taliadau ar gyfer ei wasanaethau i Gyngor Sir Fynwy, felly nad yw c'n cael ei gynnwys yn y tabl uchod.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**  
**2. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG**

Mae gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru nifer o gysylltiadau â'r awdurdodau cyfansoddol:

- Mae pob aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub hefyd yn aelod o un o'r awdurdodau cyfansoddol.
- Trysorydd yr Awdurdod Tân ac Achub yw Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adfywio, Amgylchedd ac Adnoddau Cyngor Sir Fynwy.
- Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn defnyddio adrannau cyflenwi tri o'r awdurdodau cyfansoddol ar gyfer cyflenwadau swyddfa amrywiol, celfi ac ati. Trefnir contractau ynni gan un o'r adrannau hyn.

Yn ystod y flwyddyn cododd trafodion â'r partiön cysylltiedig a ddangosir isod.

<b>Arian oddi wrth awdurdodau cyfansoddol</b>	<b>Derbyniadau £000</b>	<b>Taliadau £000</b>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent		3,431
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr		6,638
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili		8,518
Cyngor Sir Caerdydd		15,915
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful		2,756
Cyngor Sir Fynwy		4,373
Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd		6,951
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf		11,586
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen		4,517
Cyngor Bro Morgannwg		6,148
		<b>70,833</b>

<b><u>Gwasanaethau wedi'u Contractio y talwyd amdanynt</u></b>	<b>Taliadau £000</b>
Cyngor Sir Fynwy – Cymorth Trysorydd	9
Cyngor Sir Fynwy – Cymorth Eiddo	202
Cyngor Sir Fynwy – Costau Cyflogres	36
Cyngor Sir Fynwy – Costau Hyfforddiant	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Gweinyddiaeth Pensiynau	59
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Gwasanaethau Eiddo	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf –Costau Cyfreithiol	5
Cyngor Sir Caerdydd – Gwasanaethau Cytundeb	41
Cyngor Sir Caerdydd - Eiddo	54
Cyngor Sir Caerdydd – Adleoli Uned Iechyd Galwedigaethol	165
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Diogelwch Tân Cymunedol (Ieuencid)	4

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**Cynnal a chadw tir, rheoli gwastraff a chytundebau glanhau**

	<b>Taliadau £000</b>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	4
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	3
Cyngor Sir Caerdydd	5
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	2
Cyngor Sir Fynwy	48
Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd	3
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	7
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1
Cyngor Bro Morgannwg	4

Yn ystod 2009/2010 o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Iwfansau ar gyfer Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004, roedd y cyfraddau blynyddol canlynol yn daladwy;

Cadeirydd	- £9,823
Is-gadeirydd	- £7,550
Aelod	- £1,108

Cyfanswm y taliadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn oedd £46,521.

Gofynnwyd i aelodau ac uwch swyddogion yr Awdurdod Tân ac Achub ddatgan unrhyw drafodion trydydd parti yn ystod y flwyddyn. Dangosodd y datganiadau a dderbyniwyd ystod o bartïon posibl perthnasol, gyda'r canlynol yn cynrychioli'r unig rai lle gwnaed taliadau.

<b>Sefydliad Parti Perthnasol</b>	<b>Natur y Berthynas</b>	<b>Taliadau mewn blwyddyn £</b>
Atal Tân	Ymddiriedolwr	35,000
Awdurdod Heddlu Gwent	Aelodaeth fel Awdurdod	1,413
Glue Media	Aelodaeth fel Teulu	9,250
Briscombe cleaning	Aelodaeth	100
Awdurdod Heddlu De Cymru	Aelodaeth fel Awdurdod	4,139

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Gweinyddol a TGCh, yn briod â Dirprwy Prif Weithredwr MTCBC

Lluniwyd y nodyn hwn yn unol â'r dehongliad a'r ddealltwriaeth gyfredol o FRS8 a'i chymhwysedd i'r sector cyhoeddus.

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**  
**3. FFIOEDD ARCHWILIO**

Mae'r ffioedd sy'n daladwy i'r archwilwyr statudol yn dod i £57,000 ar gyfer y gwasanaethau archwilio allanol a dderbyniwyd ac mae'n cynrychioli cynnydd o sero ar ffioedd 2008/09.

	2008/2009	2009/2010
	£000	£000
Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol a wnaed gan yr archwilydd penodedig	47	46
Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am archwiliad statudol	10	11
Ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau eraill a ddarparwyd gan yr archwilydd penodedig	0	0

**4. Trafodion Menter Cyllid Preifat (MCP)**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2005/06, aeth yr Awdurdod i mewn i drefniant Menter Cyllid Preifat (MCP) ar gyfer darparu canolfan hyfforddi ym Mhorth Caerdydd. Bydd y trefniant yn ei le tan fis Medi 2030. Mae ymrwymiad o £15.4m (Gwerth Net Cyfredol) am hyd y cytundeb, sydd i'w ariannu gan gyfuniad o Gredydau MCP, a gytunwyd gan adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae'r Awdurdod yn bodloni costau'r Tâl Unedol o'i adnoddau ei hun a thrwy nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae proffil nawdd y Cynulliad yn gostwng yn flynyddol hyd nes terfyn cyfnod y cytundeb, tra bo'r tâl unedol sy'n daladwy gan yr Awdurdod yn cynyddu'n flynyddol ar hyd yr un cyfnod. Canlyniad hyn yw "gwarged" o adnoddau ar gyfer y MCP o'i gymharu â thaliadau ar gyfer cyfnod cychwynol cyfnod y cytundeb. Mae'r symiau gwarged wedi'u gosod naill ochr mewn cronfa wedi'i chlustnodi er mwyn ariannu rhan olaf cyfnod y cytundeb pan fydd taliadau blynyddol yn fwy na'r adnoddau blynyddol.

Ar 31 Mawrth 2010, balans cronfa gyfartalu wedi'i chlustnodi MCP oedd £2.410.

Newidiodd triniaeth y MCP yn ystod 2009/10 yn unol â SORP 2009. Mae cyfanswm y taliad unedol wedi'i rannu yn elfen tâl gwasanaeth, elfen ad-dalu rhwymedigaeth a'r elfen llog. Mae'r taliadau wedi'u dangos isod:-

2008/09 Ailddatgan £'000	Tâl Unedol	2009/10 £'000
962	Elfen Tâl Gwasanaeth	1,062
525	Elfen Llog	511
173	Rhwymedigaeth Prydles Ariannol	121
1,660	<b>Cyfanswm</b>	1,694

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

Caiff y taliadau hyn eu gwneud drwy gydol bywyd y cytundeb MCP ac mae amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd dilynol wedi'u manylu isod ar brisiau cyfredol:-

<b>Tâl Unedol</b>	<b>2010/11</b>	<b>2011/12 i</b>	<b>2016/17 i</b>	<b>2021/22 i</b>	<b>2026/27 i</b>
	<b>£'000</b>	<b>2015/16</b>	<b>2020/21</b>	<b>2025/26</b>	<b>2030/31</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Elfen Tâl Gwasanaeth	1,045	6,181	7,447	8,418	8,165
Elfen Llog	501	2,341	1,975	1,478	606
Rhwymedigaeth Prydles Ariannol	184	701	869	1,631	2,829
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,730</b>	<b>9,223</b>	<b>10,291</b>	<b>11,527</b>	<b>11,600</b>

**MCP a Rhwymedigaethau Hirdymor eraill**

Mae'r Rhwymedigaeth Prydles Ariannol MCP yn cyfateb â gwerth teg yr ased sefydlog ar gyfer y Ganolfa Hyfforddiant MCP sydd wedi dod ar Fantolen yr Awdurdod yn unol â SORP 2009. Bydd hyn yn cael ei nodi drwy gydol bywyd y cytundeb MCP.

<b>2008/09</b>		<b>Symudiad</b>	<b>2009/10</b>
<b>£'000</b>		<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>6336</b>	<b>Rhwymedigaeth Prydles MCP</b>	<b>-121</b>	<b>6215</b>

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**5. ASEDAU SEFYDLOG**

Ailbrisiwyd tir ac adeiladau gan Syrfewyr Siartredig Cooke & Arkwright ar 31 Mawrth 2010. Yn seiliedig ar yr atodlenni prisio sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad canlynol, gwerth asedau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yw £63,055,000 (Chwe deg tair miliwn a phum mil ar hanner cant o bunnoedd). Cafodd yr holl eiddo ei brisio gan ddefnyddio Cost Cyfnewid Dibrisio (CCD) gan eithrio \*Pencadlys Gwasanaeth Tân, Neuadd Lanelái a thir ym Mhontpennau a gafodd eu prisio ar sail gwerth Defnydd Presennol a gwerth Marchnad fel oedd yn briodol.

\*Dyma'r pencadlys newydd sydd wedi'i brisio yn yr atodlenni prisio ar werth y farchnad ar gyfer ei ddefnydd presennol. Gwnaeth yr Awdurdod hefyd gais am brisiad arall yn seiliedig ar CCD at ddibenion dangosol (os oedd yn cael ei ystyried fel ased 'arbenigol' oherwydd ei natur a'r cymysgedd o ran defnydd fel un endid) ac y byddai yn £11,400,000.

Lle mae eiddo o natur arbenigol mae barn y priswyr am Werth y Farchnad yn deillio'n bennaf gan ddefnyddio'r dull CCD am fod natur arbenigol yr ased yn golygu nad oes unrhyw drafodion marchnad o'r math hwn o ased ac eithrio fel rhan o'r endid.

Ar gyfer yr eiddo hynny nad ydynt o natur arbenigol, mae barn y priswyr am Werth y Farchnad yn deillio'n bennaf o ddefnyddio trafodion diweddar cymharol y farchnad ar delerau hyd braich.

Mae cerbydau wedi'u prisio ar gost dibrisiedig.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo lefel de minimis o £10,000. Mae cerbydau ac offer sydd â phris prynu yn is na'r lefel honno felly wedi'u heithrio o'r gwerth ased sefydlog.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**  
**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

Mae'r symudiad o ran prisio asedau sefydlog wedi'i ddangos isod.

	<b>Tir ac Adeiladau £000</b>	<b>Cerbydau ac Offer £000</b>	<b>MCP Canolfan Hyfforddiant £000</b>	<b>Cyfanswm £000</b>
Gwerth Gros ar 31.3.09	68,306	15,883	6,800	90,990
Ychwanegiadau	2,254	2,516	0	4,770
Gwaredu asedau heb NBV		-34	0	-34
Gwariant nad yw at ddibenion gwella	-1,533			-1,533
Nam	-5,972			-5,972
Gwerth llyfr gros ar 31.3.09	63,055	18,365	6,800	88,220
Dibrisiant a gronnwyd ar 31 Mawrth 2009	5,055	9,997	964	16,016
Dibrisiant am y flwyddyn	1,306	1,785	246	3,337
Ailbriso	-6,361	-16	0	-6,377
Llai dibrisiant ar asedau a werthir		-24	0	-24
Dibrisiant a gronnwyd ar 31.3.10	0	11,742	1,210	12,952
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2009	63,251	5,886	5,836	69,137
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010	63,055	6,623	5,590	75,268

\*Mae'r holl eiddo'n rhydd-ddaliadol

**Datganiad o'r Asedau a Ddelir**

Dangosir isod fanylion yr asedau yn cael eu dal ar 31 Mawrth 2010.

<b>Gorsafoedd Tân / Adeiladau</b>	<b><u>Nifer ar 31.3.09</u></b>	<b><u>Nifer ar 31.3.10</u></b>
Amser llawn	24	24
Rhan-amser	26	26
Pencadlys y Gwasanaeth Tân	2	2

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**Cerbydau**

	<u>2008/2009</u>		<u>2009/2010</u>	
	<u>Perchen</u>	<u>Ar les</u>	<u>Perchen</u>	<u>Ar les</u>
Ysgol Ddŵr/Tendr	42	49	44	49
Platfform Hydrolog	5	0	7	0
Tendr Achub	10	3	10	3
Tendr Ewyn	3	0	4	0
Cariwr Dŵr	5	0	6	0
Haenen Piben Ddŵr	3	0	5	0
Uned Codi Drom	0	0	0	0
Uned Digwyddiadau Cemegol	1	1	1	1
Uned Achub Arbennig	3	1	10	0
Uned Reoli	1	0	1	0
Uned Arddangos Diogelwch Tân	2	0	2	0
Prime Mover	4	0	4	0
Uned Cymorth O.A.	3	0	3	0
Tryc (hyfforddi gyrwyr)	1	0	1	0
Tryc (llethr/dec/craen)	1	0	1	0
Tryc Gyriant Pedair Olwyn	0	0	0	0
Achub	2	0	2	0
4 W.D./ L4P Aml Rôl	13	10	20	0
4 W.D. Cerbyd Cyfleustod	5	0	5	0
Bws Mini	5	3	5	1
Fan	76	3	86	3
Car	0	149	0	144
Uned y Gellir ei Thyngu ar Led	6	0	5	0
Ôl-gerbyd	8	0	8	0
Cwch	5	0	6	0
Fforch Godi	1	0	1	0
Amrywiol	4	0	4	0
Uned Dadlygru	0	0	1	0
Uned Achub Anifeiliaid	0	0	1	0
Uned Les	0	0	1	0
Beic Modur	0	0	1	0
Cerbydau Pob Tirwedd	4	0	4	0
<b>CYFANSYMLIAU</b>	<b>213</b>	<b>219</b>	<b>249</b>	<b>201</b>

Dangosir eitemau ar les er gwybodaeth yn unig.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

Defnyddir y bywydau defnyddiol canlynol at ddibenion dibrisiant.

<b>ASED</b>	<b>BLYNYDDOEDD</b>
Tir ac adeiladau	12-50
Cerbydau a pheiriannau	3 - 15
Offer	5

**6. GWARIANT CYFALAF**

Ceir gwariant cyfalaf ar gynlluniau sydd â bywyd y tu hwnt i flwyddyn, ac sy'n cael eu hariannu i raddau helaeth gan fenthyciadau neu gyfraniadau refeniw. Mae arian dargadw sy'n ddyledus wedi eu cronni.

Roedd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

<b>Cynllun</b>	<b>£000</b>
Adleoli Storfeydd/Gweithdai	934
Cynnal a Chadw Arfaethedig ac Ataliol	521
Mân waith	934
Prosiect Maesteg	38
Adleoli'r Ystafell Reoli	10
Cyfnwid cyfrifiaduron a gweinyddwyr	103
Offer Rheng Flaen	732
Offer Ffitrwydd	34
Prynu Cerbydau	1,418
Adleoli Iechyd Galwedigaethol	46
	<b>4,770</b>

**7. CYLLIDO GWARIANT CYFALAF**

Ariannwyd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	<b>2009/2010</b>	<b>2010/2011</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Benthyciadau allanol	10,313	1,834
Cyfrif Refeniw	220	220
Dygwyd ymlaen llithriant	2,222	400
Cronfeydd	3,579	1,307
Arian Grant	341	1,009
Cyfanswm	<b>16,675</b>	<b>4,770</b>

**8. YMRWYMIADAU CYFALAF**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wariant cyfalaf mewn blynyddoedd dilynol sy'n codi o gontractau yr ymrwymwyd iddynt ar y dyddiad ar y fantolen. Yr amcangyfrif o'r gwariant cyfalaf a ymrwymwyd ar 31 Mawrth 2010 ac i'w wneud yn ystod 2010/11 yw £1,996,000. Mae'r gwariant hwn yn gysylltiedig â phum ffrâm ysgol

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

ddŵr, adeiladu corff uned achub anifeiliaid mawr, adeiladu corff dau beiriant awyr, cyfnewid setiau offer anadlu ac offer iechyd corfforaethol a TGCh.

**9. PRYDLESI**

Fe ddaeth ymrwymadau nas rhyddhawyd o dan brydlesi gweithredol i swm o £ 3,131,338 ar 31 Mawrth 2010.

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i weithredu taliadau prydles yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf o £721,460.

	<b>Ar 31.3.09</b>	<b>Ar 31.3.10</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Prydlesi gweithredol sydd yn dod i ben:		
O fewn 1 flwyddyn	134	91
2 - 5 mlynedd	341	369
Dros 5 mlynedd	349	261

Yn ystod y flwyddyn roedd cyfanswm y taliadau am brydlesi gweithredol cerbydau yn £729,719 o'i gymharu â £636,000 yn 2008/09.

**10. STOCIAU**

Dangosir y symudiad cyffredinol mewn stoc isod. Pennir gwerth yr holl stoc yn ôl pris cyfartalog, fel procsi ar gyfer pris cost, ac eithrio Iwniform (Offer Amddiffyn Personol), y nodir ei gwerth ar y pris cyfredol.

	<b>Ar 31.3.08</b>	<b>Ar 31.3.09</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Offer amddiffyn personol ac iwniformau	226	322
Cyfrannau cerbydau a chynnal a chadw	171	143
Petrol a disel	60	78
Memorabilia	1	1
	<b>458</b>	<b>544</b>

**11. DYLEDWYR**

	<b>Ar 31.3.09</b>	<b>Ar 31.3.10</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Mân Dyledwyr	994	795
Tollau Tramor a Chartref EM (TAW)	399	712
Taliadau Ymlaen Llaw	643	688
Dyledwyr Cadwedig	2	0
Darpariaeth ar gyfer dyledion na ellir eu hadennill	(20)	(120)
Dyledwyr Pensiwn	636	2,109
Arall - hirdymor	5	4
	<b>2,659</b>	<b>4,188</b>

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**  
**12. BUDDSODDIADAU**

Roedd yr unig fuddsoddiadau a wnaed yn 2009/10 yn rhai dros dro (h.y. llai na 364 diwrnod).

**13. CREDYDWYR A DARPARIAETHAU**

	<b>Ar 31.3.08</b>	<b>Ar 31.3.09</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Benthyca tymor hir sy'n ad-daladwy cyn pen blwyddyn	6,402	1,302
Credydwyr refeniw	3,398	5,512
Credydwyr cyfalaf	165	342
	<b>3,563</b>	<b>5,834</b>
<b>Darpariaethau</b>	<b>411</b>	<b>418</b>

Mae'r ddarpariaeth wreiddiol ar 31.03.09 yn ymwneud â newid yn y ffactor cymudiad ar gyfer cyfandaliadau pensiwn ymladdwyr tân a chafodd ei wrthdroi yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu'r costau. Mae darpariaeth 2010 wedi'i chreu mewn perthynas â dyfarniad cyfreithiol yn ymwneud â rheoliadau gweithwyr rhan amser, mae'r dyddiad talu'n aros yn ansicr.

**14. ARIAN A CHYFWERTH ARIAN**

	<b>Ar 31.3.09</b>	<b>Ar 31.3.10</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Arian yn nwylo swyddogion	26	26
Arian yn y banc	662	1,142
Sieciau heb eu Cyflwyno	0	0
Buddsoddiadau	5,002	10,008
<b>Cyfanswm arian parod</b>	<b>5,690</b>	<b>11,176</b>

Cynrychiola hyn weddill y llyfr arian ar 31 Mawrth 2010, sy'n cynnwys sieciau a dynnwyd gan yr Awdurdod nad ydynt wedi'u cyflwyno i fanc yr Awdurdod ar gyfer eu talu erbyn 31 Mawrth 2010.

**15. BENTHYCA TYMOR HIR**

Codwyd benthyciadau am £14,000,000 yn ystod 2009/10, a chyfanswm gwerth y benthyciadau oedd yn ddyledus ar 31 March 2010 oedd £30,761,638. Codwyd yr holl fenthyciadau o'r PWLB, ac maent yn derbyn cyfradd llog sefydlog.

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

Rhoddir trefnlen y prif ad-daliadau isod.

	<b>Ar 31.3.09</b>	<b>Ar 31.3.10</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
1 i 2 flynedd	402	1,302
2 i 5 mlynedd	1,206	3,206
5 i 10 mlynedd	2,009	8,010
Dros 10 mlynedd	13,345	16,942
<b>Benthyciadau yn weddill ar 31 Mawrth</b>	<b>16,962</b>	<b>29,460</b>
<b>Gwerth Teg y Ddyled i PWLB</b>	<b>25,279</b>	<b>31,755</b>

Dangosir cost y prif ad-daliadau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn yn Nodyn 17.

**16. DERBYNIADAU CYFALAF DEFNYDDIADWY NAS CYMHWYSWYD**

Derbyniadau cyfalaf yw'r rhain sydd ar gael ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf ond nas cymhwyswyd at y diben hwnnw ar 31 Mawrth 2010. Derbyniwyd derbyniadau cyfalaf o £25,000 ar gyfer y flwyddyn.

**17. CYFRIF CYMHWYSO CYFALAF**

	<b>£000</b>
Gweddill ar 1 Ebrill 2009	<b>-42,307</b>
MRP	-914
Dibrisiant a namau	10,350
Gwariant nad yw er gwella	1,533
Gwariant a gyllidwyd o adnoddau refeniw	-220
Gwariant a gyllidwyd o gronfeydd wrth gefn	-1,307
<b>Gweddill ar 31 Mawrth 2010</b>	<b>-32,865</b>

**18. CRONFEYDD AILBRISIO**

	<b>£000</b>
<b>Balans ar 1 Ebrill 2009</b>	<b>0</b>
Tir ac Adeiladau	7,450
Cerbydau	-16
<b>Balans ar 31 Mawrth 2010</b>	<b>-7,466</b>

**19. GRANTIAU LLYWODRAETH WEDI'U GOHIRIO**

Pan fydd caffael ased sefydlog yn cael ei ariannu yn llawn neu'n rhannol gan grant oddi wrth y llywodraeth neu gyfraniad arall, mae swm y grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r cyfrif Grantiau Llywodraeth wedi'u Gohirio ac mae'n cael ei ddileu o gyfrif refeniw'r gwasanaeth drwy gydol bywyd defnyddiol yr ased er mwyn cyd-fynd â dibrisiant yr ased y mae'n berthnasol iddo.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

Mae grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill yn cael eu cyfrif ar sail groniodol ac yn cael eu cydnabod wedi cydymffurfio â'r amodau ar gyfer eu derbyn a phan fydd sicrwydd rhesymol y bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei dderbyn.

Yn ystod y flwyddyn cafodd eitemau cyfalaf yn dod i £1,009,000 eu hariannu drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac o ganlyniad cafodd y cyfrif grantiau llywodraeth wedi'u gohirio ei nodi gyda dibrisiant am y flwyddyn.

**20. CRONFEYDD WEDI'U CLUSTNODI**

Mae'r Awdurdod yn dal y cronfeydd canlynol wedi'u clustnodi:

	<u>Balans</u> <u>31 Mawrth</u> <u>2009</u> <u>£000</u>	<u>Trosglwyddiad o</u> <u>£000</u>	<u>Trosglwyddiad i</u> <u>£000</u>	<u>Balans</u> <u>31 Mawrth</u> <u>2010</u> <u>£000</u>
<b>Cronfa wrth gefn Adnewyddu ac Atgyweirio*</b>	410	-410		0
<b>Cronfa wrth gefn Buddsoddi Cyfalaf</b>	272	0		272
<b>Cronfa wrth gefn Offer Cerbydau*</b>	25	-25		0
<b>Cronfa adleoli'r Pencadlys</b>	743	-743		0
<b>Cronfa Cyflogau wrth gefn</b>	500	0		500
<b>Cronfa Gydraddoli Menter Cyllid Preifat</b>	2,055		355	2,410
<b>Cronfa Cerbydau a Pheiriannau</b>	1,000	-373	0	627
<b>Cronfa Rheoli Newid</b>	500	-345	0	155
	<b>5,505</b>	<b>1,896</b>	<b>355</b>	<b>3,964</b>
		<u><b>Cyfraniadau yn y</b></u> <u><b>flwyddyn</b></u>	<u><b>Enillion / Colledion</b></u> <u><b>Actiwaraid</b></u>	
<b>Cronfa Bensiynau wrth gefn</b>	-427,680	-20,040	-172,890	-620,990
	<u><b>-422,175</b></u>	<u><b>-22,316</b></u>	<u><b>-172,535</b></u>	<u><b>-617,026</b></u>

*\*Trosglwyddwyd i'r Cyfrif Cyffredinol yn 2009/10*

- Sefydlwyd cronfa Buddsoddiad Cyfalaf wrth gefn yn 2003/04 at ddibenion cynorthwyo buddsoddiad a arwyddwyd drwy'r Broses Rheoli Risg Integredig.
- Sefydlwyd cronfa gyflogau wrth gefn yn ystod 2006/07 er mwyn talu costau unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn ddilynol a fyddai'n uwch na'r swm a glustnodwyd, o'r gronfa hon.

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

- Mae cronfa wrth gefn Cyfartaliad MCP yn bodoli i gyfateb i gyllid MCP a thaliadau cost unedol dros gyfnod y contract.
- Mae cronfa adleoli'r Pencadlys wedi cael ei sefydlu o refeniw dros ben 2007/08, i leddfu cost symud i bencadlys newydd neu i fodloni costau llif arian tra bo Neuadd Lanelái yn cael ei marchnata.
- Sefydlwyd cronfa newid mewn rheolaeth er mwyn ariannu costau yn ymwneud â chyflawni gwelliannau effeithiolrwydd yn y blynyddoedd i ddod.
- Sefydlwyd cronfa cerbydau a pheiriannau er mwyn ariannu prynu tendrwy'r ysgolion dŵr yn 2009/10.

Ceir manylion am falans y Gronfa Gyffredinol yn y nodiadau ar gyfer y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**21. RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN**

Fe ddaeth y Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) i rym ar 1 Gorffennaf 2000. O ganlyniad i achos llys, mewn rhai amgylchiadau caiff Ymladdwyr Tân Rhan Amser brynu mewn i Gynllun Pensiwn Staff Iwniform. Pan fydd Ymladdwyr Tân Rhan Amser yn dewis prynu mewn i'r Cynllun Pensiwn bydd rhwymedigaeth sylweddol i'r Awdurdod er mwyn cario cost pensiynau o'r fath. Nid yw cyfrifiad manwl y rhwymedigaeth eto wedi'i gytuno'n llawn ac fe allai elfen ohono gael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar hyn o bryd, mae costau ac amserlen ar gyfer rhwymedigaeth o'r fath, os bydd unrhyw rai, yn anfesuradwy.

**22. BUDD-DALIADAU YMDDEOL (FRS 17)**

Yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol Rhif 17 – Budd-daliadau Ymddeol (FRS 17) rhaid i'r Awdurdod ddatgelu'r wybodaeth benodol sy'n ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn ei weithwyr.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân priodol ar gyfer 1992 a 2006. Ar gyfer personél llyfr gwyrdd (corfforaethol), mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nodir isod y datgeliadau y gofynna FRS 17 amdanynt.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-2010**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**Datgeliad Pensiynau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2009/10**

Mae rhwymedigaethau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2010 fel a ganlyn:

**Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân 1992**

<b>RHWYMEDIGAETHAU CYN- WASANAETH</b>	<b>Gwerth ar 31 Mawrth 2008</b>	<b>Gwerth ar 31 Mawrth 2009</b>	<b>Gwerth ar 31 Mawrth 2010</b>
	<b>£M</b>	<b>£M</b>	<b>£M</b>
Rhwymedigaeth o ran			
Pensiwn mewn Taliad (ac eithrio anafiadau)	(210.21)	(213.69)	(285.71)
Pensiwn mewn Taliad (dyfarniadau oherwydd anafiadau)	N/A	N/A	N/A
Pensiynau wedi'u Gohirio	(1.37)	(1.93)	(3.35)
